UNISON the public service union

# Branch resources review 2021

**Cyflwyniad**

## Adroddiad Cryno – Mai 2021

Cynnig 72 ac Adroddiad y Cyngor Gweithredol Cenedlaethol (NEC) 'Cefnogi ein Canghennau: Yr Adolygiad o Adnoddau Canghennau' yw canlyniad adolygiad dwy flynedd a gychwynnwyd yn ystod haf 2019. Yn y Gynhadledd Dirprwyon Genedlaethol (NDC) y flwyddyn honno, cydnabu'r Gynhadledd oherwydd y lleihad mewn cyflogwyr mewn trefniadau bargeinio cenedlaethol a rhaniad arwyddocaol y gweithlu, fod y llwyth gwaith o ran darparu cefnogaeth i aelodau wedi cynyddu.

Nododd Cynnig 126 yn y gynhadledd honno bod y mater o adnoddau i ganghennau wedi bod yn bwnc trafod mynych, ac roedd yn amlwg bod angen adolygu adnoddau'r undeb er mwyn sicrhau bod gan ganghennau lefelau digonol, sefydlog a chynaliadwy o er gwaethaf mesurau cyni a orfodwyd o'r tu allan.

Cafodd Mesur 126 ei basio'n llwyddiannus a gyfarwyddodd yr NDC yr NEC i gyflawni adolygiad dros ddwy flynedd o weithgaredd a gwariant ar lefel genedlaethol, ranbarthol a changen; er mwyn galluogi blaenoriaethu gweithgaredd a gwariant undeb, gyda'r bwriad o ailgyfeirio adnodd atodol i ganghennau. I hwyluso hyn, mae'r NDC wedi creu Gweithgor Adolygu Adnoddau Canghennau. Corff o 24 o aelodau gweithredol lleyg, 12 o'r NEC a 12 o bob un o ranbarthau UNSAIN. Cyfarwyddwyd y grŵp i oruchwylio bod yr adolygiad yn adlewyrchu amcanion cytûn yr undeb yn seiliedig ar lywodraethu ariannol cadarn, ac i sicrhau'r lefelau uchaf o gywirdeb ariannol. Yn ogystal, sefydlodd y cynnig drefniadau ariannu canghennau ychwanegol dros dro ar gyfer cyfnod yr adolygiad.

Mae gwaith dwys y grwpiau adolygu wedi arwain at Gynnig 72 ac adroddiad ategol; mae'r adroddiad yn seiliedig ar ganlyniadau cyfuniad o ddata gwiriadwy annibynnol, o ansawdd da, ynghyd a rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr sy'n cynnwys gwrando ar aelodau gweithredol y canghennau trwy arolygon, cyfweliadau a chyfarfodydd rhanbarthol. Mae'r 14 o argymhellion yn becyn o fesurau sy'n cynyddu cefnogaeth ar gyfer canghennau a hefyd yn nodi meysydd ble gall yr NEC sicrhau arbedion i'w porthi yn ôl i'r canghennau. Yn arwyddocaol, roedd yr adroddiad yn cynnig cynllun cyllido newydd ar gyfer canghennau sy'n ei ymgorffori o fewn Fformiwla Cyllido Canghennau newydd a Chronfa Cefnogaeth a Threfnu Canghennau newydd fel y prif argymhelliad yn y pecyn cyffredinol.

Mae cyfnod yr adolygiad bellach wedi dod i ben. Mae'r pecyn o gynigion yn bodloni cylch gorchwyl Cynnig 126 ac wedi ei ardystio gan y grŵp Adolygu Adnoddau Canghennau, y Pwyllgor Rheoli Cyllid ac Adnoddau a Chyngor y Gweithgor Cenedlaethol. Bydd Cynnig 72 a'r adroddiad 'Cefnogi Ein Canghennau: Adolygiad Adnoddau Canghennau' yn mynd gerbron y Gynhadledd Dirprwyon Arbennig ym Mehefin 2021.

**Hysbysu'r Adolygiad**

Edrychodd y grŵp Adolygu Adnoddau Canghennau yn gyntaf ar gronfeydd data allweddol yr undeb am wybodaeth ynghylch sut oedd canghennau yn ymdopi, yn cynnwys yr RMS, OLBA a'r Fframwaith Trefnu. Yn ogystal, gwahoddwyd canghennau UNSAIN i gwblhau arolwg Adnoddau'r Gangen yn Chwefror 2020. Roedd y data sefydliadol ynghyd â chanlyniadau'r arolwg yn cynnig cyfle i'r grŵp adolygu i gael gwell dealltwriaeth o beth oedd y canghennau yn teimlo oedd angen arnynt i allu cyflawni eu rhwymedigaethau i'w haelodau yn effeithiol a thu hwnt; helpodd yr arolwg aelodau grŵp yr adolygiad i weld ble roedd canghennau eisiau ffocysu a blaenoriaethu eu rhaglenni gwaith.

Ymatebodd ychydig dan hanner y canghennau, 357 neu 42%, ac roedd amrywiaeth dda o feintiau canghennau o wahanol ranbarthau a grwpiau gwasanaeth.

Dangosodd canlyniadau'r arolwg bod y mwyafrif o ganghennau yn teimlo bod yr undeb yn darparu'r adnoddau i fodloni'r amrywiaeth o amcanion a sefydlir yn y Cod Ymarfer Cangen Dda. Fodd bynnag, roedd yna ardaloedd gydag anawsterau cynyddol a phwysau'n cynyddu ar uwch swyddogion cangen ac aelodau gweithredol wedi degawd o gynni; yn arbennig felly delio gyda rhaniad mawr o gyflogwyr.

Roedd yr arolwg hefyd yn datgelu mai'r tri gweithgaredd yr hoffai'r canghennau wneud mwy ohonynt, pe byddai'r adnoddau ar gael, yn eu trefn oedd:

- Ffocysu ar recriwtio a dargadw aelodau newydd
- Addysg ar gyfer aelodau ac aelodau gweithredol; a
- Cefnogi aelodau gyda chynrychiolaeth a gwaith achos

Ac yn olaf, datgelodd yr arolwg dri maes penodol ble datganodd canghennau eu bod angen cefnogaeth atodol. Y rhain oedd (yn eu trefn):

- Mwy o amser (yn cynnwys amser cyfleuster)
- Mwy o gefnogaeth gan ranbarthau; a
- Mwy o gefnogaeth ariannol


Mae grŵp yr adolygiad hefyd wedi treulio dwy flynedd yn ymgysylltu gydag aelodau, canghennau, rhanbarthau, grwpiau gwasanaeth, Pwyllgorau NEC, grwpiau sy'n trefnu eu hunain ac aelodau ifanc.

Mae'r cynigion wedi eu trafod a'u hystyried mewn manylder mewn gwahanol gyfarfodydd o'r cyngor Rhanbarthol, Pwyllgor Rhanbarthol a'r Gweithgor Grŵp Gwasanaeth. Roedd sesiynau adeiladol yn y Pwyllgor Cyswllt Cydraddoldeb gyda'r cadeiryddion ac is-gadeiryddion y Pwyllgorau Grŵp Cenedlaethol sy'n Trefnu eu hunain a'r Fforwm Aelodau Ifanc wedi dylanwadu'n gryf ar ddatblygiad rhai cynigion. Mae erthyglau wedi eu cyhoeddi'n rheolaidd yn y bwletin e-bost Aelod Gweithredol Digidol sydd yna wedi ymddangos ar wefan UNSAIN. Mae postiadau rheolaidd ar Twitter hefyd wedi helpu ymgysylltu aelodau gweithredol yn y broses.

## Y Cynigion

Mae Grŵp Adolygu'r BRR wedi llunio cyfres o gynigion a fydd yn darparu cefnogaeth fwy ymarferol ar gyfer canghennau lleol, yn cynnwys gwella fformiwla cyllido canghennau a Chronfa Cefnogaeth a Threfnu Canghennau.

**Cynllun cyllido newydd ar gyfer canghennau**




### 1a. Fformiwla Cyllido Canghennau Newydd

Cafodd y fformiwla cyllido canghennau diwethaf ei chreu yn 2001. Mae fformiwla newydd wedi ei datblygu mewn ymateb i'r newid amgylchiadau o ran sut mae'r canghennau nawr yn gweithredu. Mae'r cynnig i wella ac ailddosbarthu'r arian sydd ar gael mewn ffordd decach. Mae'r safon sylfaenol wedi cynyddu ac mae hawliau atodol ar gyfer cael aelodau sydd dan gyflogwyr lluosog a chronfeydd wrth gefn isel yn y gangen wedi eu cynnwys. Yn ogystal, mae'r safon genedlaethol ar gyfer cronfeydd wrth gefn fesul aelod wedi newid.




**1b. Cronfa Cefnogi a Threfnu Canghennau newydd**

Bydd y gronfa hon yn disodli'r Gronfa Ranbarthol a'r Gronfa Brwydro. Bydd bedair gwaith maint y Gronfa Ranbarthol ac yn cael ei rheoli dan reolaeth aelodau lleyg. Bydd yn hawdd cael mynediad i'r gronfa hon, yn hawdd ei rheoli, ac yn darparu cefnogaeth hyblyg i ganghennau. Bydd aelodau gweithredol yn gallu defnyddio'r gronfa i helpu gyda gwaith achos, gyda threfnu ac/neu i brynu offer. Ni fydd y Gronfa Ranbarthol a'r Gronfa Frwydro ar gael mwyach.

*Argymhelliad:*

Cyflwyno fformiwla a chynllun cyllido newydd a gwell ar gyfer canghennau sy'n sefydlu Cronfa Cefnogi a Threfnu Canghennau newydd ar 2% o'r incwm tanysgrifiad cenedlaethol, a fyddai'n disodli'r Gronfa Ranbarthol a Chronfa Frwydro cyfredol, a phecyn cyllid i gyfanswm o 25.5%.

**2. Cymhorthdal ar gyfer Mynediad i'r System CaseWeb**

Mae hyn yn darparu un lleoliad ar gyfer yr holl waith achos, sydd hefyd yn bodloni ymrwymiadau amgylcheddol a GDPR UNSAIN, ac yn golygu bod canghennau a rhanbarthau'n defnyddio'r un system. Cyflwynwyd CaseWeb yn dilyn cynnig i'r gynhadledd gan ganghennau ac mae dros 100 o ganghennau eisoes wedi cofrestru i'w ddefnyddio. Bydd CaseWeb ar gael i ganghennau gyda gostyngiad o 50% ar gyfer canghennau â 2000 o aelodau neu lai.

*Argymhelliad:*

*Cynnig cymhorthdal ar gyfer ffioedd misol y system CaseWeb newydd o 50% ar gyfer canghennau sy'n tanysgrifio'n wirfoddol i CaseWeb ac sydd â 2,000 neu lai o aelodau.*

3. **Cynnig Caffael Cenedlaethol ar gyfer Canghennau**

Bydd yr adran Systemau yng Nghanolfan UNSAIN yn defnyddio arbedion maint ac arbenigedd i sicrhau arbedion i ganghennau trwy lunio rhestrau o gyflenwyr cymeradwy sy'n bodloni safonau UNSAIN. Galli hyn gynnwys caffael offer TG, dodrefn a nwyddau swyddfa ar ran canghennau sy'n dewis cymryd rhan, a byddai'n sicrhau bod cyflenwyr yn bodloni gofynion moesegol UNSAIN, megis y cod caethwasiaeth fodern

ymysg eraill. Hyd yn oed os na ddefnyddir cyflenwyr UNSAIN, gallai canghennau ddefnyddio rhestrau gwirio cenedlaethol.

*Argymhelliad:*

*Sefydlu gwasanaeth caffael newydd i gefnogi canghennau i brynu nwyddau a gwasanaethau.*

4. **Cyfarfodydd Ar-lein**

Mae cynnal a hybu democratiaeth yr undeb wedi bod yn ganolog i holl drafodaethau'r Adolygiad. Y cynnig hwn yw y gallai rhai cyfarfodydd cenedlaethol a rhanbarthol yn y cylch blynyddol wedi'r pandemig gael eu cynnal ar-lein neu'n defnyddio dull hybrid gydag arbedion o rhwng £0.5m i £1m y flwyddyn yn dychwelyd yn syth i'r canghennau. Mae ymateb yr undeb i effaith COVID-19 wedi dangos i ni y gallwn weithredu yn defnyddio technoleg.

*Argymhelliad:*

*Cefnogi cyfarfodydd ar-lein ar bob lefel yn yr undeb, gan gydnabod unrhyw addasiadau rhesymol sydd angen i greu cyllid i helpu canghennau, ehangu cyfranogiad ac i fodloni ein nodau amgylcheddol.*

5. **Gwella Gwasanaethau Cynhadledd ac Adolygu Amserlenni**

Mae grŵp yr Adolygiad yn edrych ymlaen at ddychweliad cynadleddau blynyddol yn y cnawd wedi'r pandemig. Bydd y cynnig hwn yn gwneud gwelliannau i drefniadau cynhadledd UNSAIN i helpu canghennau: fel cynnig gwasanaeth archebu ar gyfer gwestyau a theithio; cronfa cronni gyfunol addasiadau rhesymol ar gyfer dirprwyon anabl; a sefydlu grŵp aelodau lleyg i gynghori'r NEC ar feysydd eraill i'w diwygio.

*Argymhelliad:*

*Cadarnhau y bydd cynadleddau blynyddol yn y cnawd yn dychwelyd wedi'r pandemig a gwelliannau i drefniadau cynhadledd UNSAIN i helpu canghennau: fel cynnig gwasanaeth archebu ar gyfer gwestyau a theithio; cronfa cronni gyfunol addasiadau rhesymol ar gyfer dirprwyon anabl; a sefydlu grŵp aelodau lleyg i gynghori'r NEC ar feysydd eraill i'w diwygio.*

6. **Uwchraddiad RMS ar draws yr undeb**

Bydd cyflwyno'r uwchraddiad i'r system aelodaeth RMS yn flaenoriaeth i derfynu'r rhaniad RMS/WARMS a chefnogi canghennau gyda system aelodaeth fodern, hyblyg ac effeithlon.

*Argymhelliad:*

*Blaenoriaethu cyflwyno'r uwchraddiad i'r system aelodaeth RMS i derfynu'r rhaniad RMS/WARMS a chefnogi canghennau gyda system aelodaeth fodern, hyblyg ac effeithlon.*

7. **Porth Gwasanaeth Cangen**

Clywodd yr Adolygiad yn fynych fod canghennau angen mynediad hwylus at adnoddau. Mewn ymateb i hyn, mae prototeip cynnar ar gyfer y Porth Gwasanaeth Canghennau eisoes wedi ei ddatblygu sy'n darparu porth i swyddogion canghennau gael mynediad at wybodaeth ac offer fydd yn cefnogi eu gwaith ac mae'r ymgysylltu ar hyn yn parhau. OS yw'r NEC yn ardystio'r pecyn hwn, bydd hyn yn safle i aelodau gweithredol dan bwysau amser gyda chynnwys wedi ei ysgogi gan geisiadau'r aelodau gweithredol.

*Argymhelliad:*

*I gadarnhau a hyrwyddo'r Porth Gwasanaeth Canghennau fel hyb ar y we i helpu swyddogion cangen gael mynediad at wasanaethau a gwybodaeth allweddol.*

8. **Cefnogaeth Bargeinio Uwch**

Mae'r cynnig hwn i wella mynediad ac ymwybyddiaeth o wasanaeth cefnogaeth bargeinio cyfredol o ddalenni ffeithiau, canllawiau, hawliadau cyflogau lleol ac ymchwil gan gwmnïau preifat i gyrraedd mwy o aelodau gweithredol. Mae'r Grŵp Cefnogaeth Bargeinio cenedlaethol cyfredol (dau o staff) yng Nghanolfan UNSAIN yn darparu cefnogaeth i grwpiau gwasanaeth, rhanbarthau a changhennau.

*Argymhelliad:*

*Darparu a hyrwyddo Gwasanaeth Cefnogaeth Bargeinio uwch i ganghennau.*

9. **Modiwl Costau Canghennau Ar-lein Newydd (o fewn OLBA)**

Wedi ei gynllunio i'w gwneud yn haws i hawlio a thalu costau sy'n codi i stiwardiaid ac i helpu trysoryddion.

*Argymhelliad:*

*Darparu system costau canghennau ar-lein i helpu aelodau gweithredol a thrysoryddion.*

10. **Diweddariad ar y Cod Ymarfer Da Canghennau**

*Argymhelliad:*

*Diweddaru tri maes o'r Cod Ymarfer Da Canghennau: gweithdrefnau cyfarfodydd ar-lein, trefniadau haws a chyflymach ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol blynyddol, ac annog canghennau i rannu adnoddau'n lleol.*

11. **Datblygu Strategaeth Amser Cyfleuster**

Mae pwysigrwydd amser cyfleuster yn hysbys iawn, ond fe'i nodwyd hefyd yn yr ymateb i arolwg y gangen fel rhywbeth allweddol i aelodau gweithredol y gangen wneud eu gwaith. Cadarnhaodd y cyfarfodydd rhanbarthol a gynhaliwyd yn yr adolygiad faint o flaenoriaeth oedd hyn i'r undeb. O 2010, tan Ddeddf Undeb Llafur 2016, a hyd heddiw, fe welwyd ymosodiadau penodol ar amser cyfleusterau yn y sector cyhoeddus gan y Blaid Geidwadol, cyflogwyr, Cynghrair y Trethdalwyr a Llywodraeth San Steffan. Bydd y cynnig yn anelu i ddiwygio'r strategaeth ac ymgyrch hon ac i weld sut allwn ni helpu canghennau i drafod am fwy o amser cyfleuster.

*Argymhelliad:*

*Sefydlu strategaeth ac ymgyrch amser cyfleuster cenedlaethol newydd i wella amser cyfleuster ar gyfer aelodau gweithredol lleyg.*

**12. Hyrwyddiad effeithiol o'r digwyddiadau Ysgol Drefnu**

Ysgol drefnu genedlaethol a arweinid gan NEC UNSAIN a'r Rhanbarthau i dyfu'r nifer o gynrychiolwyr a stiwardiaid galluog a phrofiadol. Mae UNSAIN wedi cynnal ysgol arweinyddiaeth achlysurol yn barod ar hyd y blynyddoedd, gan gyfuno staff ac aelodau gweithredol lleyg yn cydweithio. Byddai hyn yn fan cychwyn i'r fenter newydd. Mae'r Ysgrifennydd Cyffredinol Cynorthwyol ar gyfer Trefnu a Recriwtio yn cadarnhau y byddai ysgol wedi ei chynnal yn 2020 oni bai am COVID-19, ac mae

cynlluniau ar y gweill i'w cynnal pob dwy flynedd gyda mentrau rhanbarthol yn y blynyddoedd cyfamserol.

*Argymhelliad:*

*Cadarnhau trefniadau ar gyfer digwyddiadau Ysgol Drefnu rheolaidd i ddatblygu a rhannu sgiliau aelodau gweithredol lleyg.*

13. **Cysylltiadau**

Gwybodaeth i hysbysu gwneud penderfyniadau yn lleol trwy ddarparu rhestr o gysylltiadau grwpiau ymgyrchu ar lefel genedlaethol i helpu canghennau.

*Argymhelliad:*

*Cyhoeddi rhestr o holl gysylltiadau ac ymgyrchoedd a gefnogir UNSAIN i helpu canghennau a rhanbarthau i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.*

14. **Grŵp Gweithredu**

Os bydd Cynnig 72 yn cael ei basio yn y gynhadledd ym Mehefin 2021, mae yna ymroddiad i sefydlu Grŵp Gweithredu dan arweiniad lleygwyr i sicrhau bod yr holl gynigion yn y pecyn sy'n ffurfio Cynnig 72 yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac effeithlon.

*Argymhelliad:*

*Sefydlu grŵp aelodaeth lleyg bychan o'r NEC a rhanbarthau i oruchwylio, adolygu a gwerthuso gweithrediad yr adroddiad.*

**Casgliad**

Mae'r Adolygiad Adnoddau Cangen wedi bod yn archwiliad llwyr a thrylwyr o holl feysydd yr undeb. Mae'n amlwg fod UNSAIN yn gryf a phwerus fel cymundod yn cydweithio mewn canghennau, rhanbarthau, grwpiau sy'n trefnu eu hunain, grwpiau gwasanaeth a'r ganolfan genedlaethol. Mae aelodau gweithredol ar draws y Deyrnas Unedig wedi hysbysu gwaith yr adolygiad ar bob cam o'r broses. Mae'r grŵp adolygu wedi ymgysylltu ag aelodau gweithredol trwy arolygon, cyfarfodydd a chyflwyniadau. Fe ymgynghorwyd â changhennau ynghylch y materion sy'n eu hwynebu a bydd y pecyn hwn o gynigion a gynhwysir yng Nghynnig 72 yn darparu cefnogaeth mewn gwahanol ffyrdd.

Mae Cynnig 72 yn bodloni cylch gwaith Cynnig 126. Mae'n ddatrysiad teg, cynaliadwy a fforddiadwy i'r materion sy'n wynebu canghennau o ddydd i ddydd. Mae Cynnig 72 yn rhoi ein hundeb mewn safle cadarn i fod yn ymgyrchwyr egnïol a phrysur i arbed amser ac arian wrth iddynt gefnogi aelodau UNSAIN.